Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Iechyd Anifeiliaid 1981
Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd)

# Trwydded ar gyfer Safle Cwarantîn Awdurdodedig o dan Erthygl 9 o Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974

**Trwydded:**

Rhoddir y drwydded hon o dan erthygl 9 o Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 i weithredwr y safle cwarantîn a enwir isod.

Mae'r drwydded yn awdurdodi'r safle cwarantîn i gael ei ddefnyddio er mwyn cadw ac ynysu'r anifail/anifeiliaid mewn cwarantîn a enwir yn Rhan 2.

Mae'r drwydded yn ddilys o'r dyddiad a nodir yn Rhan 3 ac mae'n ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn Rhestr 1 ac unrhyw admodau ychwanegol a nodir yn Rhan 4.

**Rhan 1 - Manylion y safle cwarantîn ('y safle cwarantîn') a gweithredwr y safle hwnnw y rhoddir y drwydded hon iddo**

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol):

Rhif Ffacs: Cyfeiriad E-bost:

**Rhan 2 – Manylion yr unedau llety a'r anifeiliaid**

**Cŵn**

Nifer yr Unedau a awdurdodir: Uchafswm pwysau a ganiateir ar gyfer ci:

**Cathod**

Nifer yr Unedau a awdurdodir:

**Mamaliaid Eraill:**
*(Specify type)*

Nifer yr Unedau a awdurdodir: Uchafswm pwysau a ganiateir:

**Rhan 3 - Trwydded yn ddilys o**

| | Diwrnod | | Mis | | Blwyddyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r drwydded hon yn ddilys o | | | | | | |
| tan | | | | | | |

**Rhan 4 – Amodau trwydded ychwanegol** *(os nad oes rhai rhowch linell drwyddo):*

Llofnod

APHA, Centre for International Trade - Carlisle

Awdurdodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn gweithredu ar ran Llywodraeth Cymru a Gweinidogion yr Alban

Enw mewn LLYTHRENNAU BRAS

Dyddiad

**DIOGELU DATA**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion.

# Rhestr 1 -  Amodau

## Cefndir

Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Gweinidogion yr Alban awdurdodi pob safle a ddefnyddir i ynysu a chadw unrhyw anifail a fewnforir i Brydain Fawr y mae Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 yn gymwys iddo (fel y'i diwygiwyd). Mae hyn yn unol ag erthygl 9(2) o'r Gorchymyn hwnnw.

Mae'r amodau yn y Rhestr hon yn nodi gofynion safonol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a rheoli cyfleuster cwarantîn er mwyn sicrhau y diogelir yn llawn rhag y gynddaredd tra bod anifeiliaid a fewnforiwyd mewn cwarantîn.

Gall Cymdeithas Filfeddygol Prydain, RSPCA a'r Feline Advisory Bureau roi canllawiau pellach ar les anifeiliaid mewn cwarantîn, os oes angen.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban addasu'r amodau a restrir neu osod amodau ychwanegol ar safleoedd unigol sydd â chynllun annodweddiadol, mewn amgylchiadau arbennig.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban y pŵer i dynnu trwydded yn ôl os na chydymffurfir ag amodau'r drwydded.

## Diffiniadau a Dehongliad

Drwy gydol y Rhestr hon o Amodau, defnyddir y diffiniadau canlynol:

ystyr '**anifail'** yw anifail y mae'n ofynnol iddo gael ei ynysu a'i gadw mewn cwarantîn o dan Orchymyn y Gynddaredd

ystyr '**Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Phlanhigion (APHA**)' yw swyddfa leol APHA i'r safle

ystyr '**gweithredwr'** yw'r unigolyn sydd ag awdurdod i weithredu'r safle a nodir yn Rhan 1 o'r drwydded hon

ystyr '**safle'** yw'r safle cwarantîn awdurdodedig a nodir yn Rhan 1 o'r drwydded

ystyr '**Gorchymyn y Gynddaredd**' yw Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (fel y'i diwygiwyd)

ystyr '**VS'** yw'r uwcharolygydd milfeddygol a awdurdodwyd gan APHA i oruchwylio'r safle yn unol ag erthygl 9(2) o Orchymyn y Gynddaredd.

## A - Amodau Cyffredinol

1. Rhaid i'r safle fod dan oruchwyliaeth VS sydd wedi ei awdurdodi gan APHA i oruchwylio'r safle yn unol ag erthygl 9(2) o Orchymyn y Gynddaredd.

2. Rhaid i'r safle gynnig gwasanaeth i'r cyhoedd.

3. Bydd awdurdodiad safle cwarantîn newydd yn destun adolygiad blynyddol am y ddwy flynedd gyntaf. Ar ôl hynny caiff awdurdodiad y safle ei adolygu bob dwy flynedd. Caiff safle ei archwilio bob chwarter ac os na chynhelir safonau boddhaol gall yr Ysgrifennydd Gwladol dynnu'r awdurdodiad yn ôl unrhyw bryd.

4. Rhaid i'r gweithredwr gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan APHA cyn newid dyluniad neu strwythur y safle.

5. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau y caiff y safle ei oruchwylio 24 awr y dydd gan aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n llawn ac sydd ar gael i ymchwilio i unrhyw achos o darfu ar y safle neu ddigwyddiad ar y safle a'i reoli cyn gynted ag y bydd yn digwydd. Rhaid sicrhau bod y safle'n cael ei oruchwylio drwy'r amser.

## B - Cynllun a Dyluniad y Safle
## Cynllun Cyffredinol

6. Rhaid i'r safle gael ei ddylunio, ei adeiladu a'i weithredu yn unol â'r canlynol:

   a) bod ganddo o leiaf bum uned

   b) dylai unedau gael eu hadeiladu mewn grwpiau hunangynhwysol er mwyn lleihau'r risg y bydd clefyd yn lledaenu ac er mwyn helpu i sicrhau diogelwch ar y safle

c) arddangosir arwyddion amlwg wrth bob mynedfa drwy'r ffens allanol er mwyn dangos bod y safle yn safle cwarantîn awdurdodedig ac y gwaherddir mynediad heb awdurdod

d) nid oes unrhyw gyswllt rhwng anifeiliaid (oni bai fod trwydded i rannu uned)

e) mae gan bob anifail fynediad uniongyrchol at ardal ymarfer unigol o'r llety cysgu neu fel arall, yn achos cathod, llety cysgu ac ardal ymarfer cyfunol. Gwaherddir defnyddio ardal ymarfer cyffredin

f) nid yw'n bosibl i unrhyw un gael mynediad at yr anifeiliaid heb i staff y llety wybod amdano

g) caiff drysau pob uned sy'n ofynnol er mwyn cadw anifeilaid yn ddiogel eu gosod â dyfeisiau o fath sy'n golygu na all anifeiliaid ddianc. Rhaid i ddrysau a chloeon fod o'r fath wneuthuriad fel:

    i. na all yr anifail ddianc pan fydd y drws ar gau

    ii. y gellir cau'r drws yn ddiogel o'r tu mewn ac o'r tu allan

    iii. os caiff ymwelwyr eu cloi i mewn ni allant ddatgloi'r drws eu hunain.

h) mae gan bob mynedfa i floc neu adran o unedau ddrws allanol a drws mewnol sy'n creu trap i atal anifail rhag dianc. Rhaid i'r pellter rhwng y drysau hyn olygu bod unrhyw beth a ddefnyddir yn y bloc hwnnw fel arfer yn gallu cael ei gymryd drwy'r trap yn y fath fodd bod un drws ar gau bob amser. Os yw'r drws mewnol yn solet, rhaid iddo gynnwys panel tryloyw na ellir dianc drwyddo. Rhaid i'r ddau ddrws agor tuag at i mewn a rhaid iddynt allu cau yn llwyr ohonynt eu hunain a rhaid i'r cliciedau gau ohonynt eu hunain. Gwaherddir defnyddio swyddfa neu ystafell arall fel trap. Rhaid i glwydi terfyn ardal ymarfer, os cânt eu darparu, agor i fewn i goridor diogelwch lle y gellir dal yr anifail. Beth bynnag fo dyluniad y llety, rhaid cael tri drws rhwng yr anifail yn ei uned a'r ardal rhwng yr adeiladau a'r ffens allanol. Caniateir allanfeydd tân heb drap ynddynt, i'w defnyddio fel llwybrau dianc yn unig mewn argyfwng. Rhaid i'r cyfryw allanfeydd tân fod o fath a gymeradwyir gan y Swyddog Diogelwch Tân a rhaid eu marcio i ddangos eu bod yn allanfeydd tân ar gyfer defnydd mewn argyfwng yn unig a sicrhau mai dim ond mewn argyfwng y gellir eu hagor.

i) darperir basnau golchi dwylo gyda chyflenwad o ddŵr tap poeth ac oer o fewn y ffens allanol at ddefnydd y staff

j) ceir ystafell archwilio a thrin filfeddygol o fewn y ffens allanol i'w defnyddio ar gyfer trin anifeiliaid mewn cwarantîn yn unig

k) rhaid i'r golau a ddarperir yn yr unedau i anifeiliaid fod yn ddigonol fel y gellir glanhau a diheintio'r unedau'n gywir a thrin a thrafod ac archwilio'r anifeiliaid yn ddiogel bob amser

l) mae gan bob rhan o'r safle ddraeniau effeithlon â gorchudd drostynt sy'n gorfod bodloni gofynion safonol is-ddeddfau lleol. Rhaid sicrhau ei bod yn amhosibl i'r draeniau, gan gynnwys draeniau arwyneb, halogi unedau neu dramwyfeydd cyfagos. Rhaid i'r draeniau fod yn ddiogel rhag cnofilod.

## Ffens neu Wal Allanol

7. Rhaid i'r ffens neu wal allanol gael ei dylunio a'i hadeiladu er mwyn atal:
    a) anifeiliaid mewn cwarantîn rhag dianc
    b) anifeilaid nad oes rhaid iddynt fod mewn cwarantîn rhag dod i mewn i'r safle
    c) pobl rhag dod i mewn heb awdurdod.

8. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r ffens neu'r wal allanol:
    a) bod yn 1.8m o uchder o leiaf (6 throedfedd)
    b) lle mae'n llai na 3m (10 troedfedd), gael giard 0.6m (2 droedfedd) o led wedi'i osod yn gadarn ar ei phen ar ongl tuag at i mewn ac i fyny o 45°. Fel dewis amgen yn lle giard onglog, gellir gorchuddio'r ardal gyfan rhwng y ffens allanol a phob adeilad o fewn y ffens allanol â rhwyll wifrog na ellir dianc drwyddi.

9. Gellir defnyddio dolennau cadwyn i adeiladu'r ffens allanol, gan gynnwys unrhyw giard onglog, a gwifrau dros adeiladau neu unedau o fewn y ffens allanol.

10. Ni ddylai diamedr y wifren a ddefnyddir i adeiladu'r ffens allanol fod yn llai na 2.00mm (14SWG) ac eithrio unrhyw orchudd ac ni ddylai maint y rhwyll fod yn fwy na 5.00cm (2 fodfedd).

11. Ni ddylid cael mwy na dwy fynedfa drwy'r ffens allanol. Rhaid i un fod yn ddigon mawr fel y gellir rhoi mynediad i gerbyd asiant cario i ddadlwytho anifeiliaid o fewn y ffens allanol y tu ôl i glwydi dan glo. Os oes clwyd ar gyfer mynediad i gerddwyr yn unig, rhaid iddi gau ohoni ei hun, cloi ohoni ei hun a rhaid cael allwedd er mwyn dod i mewn o'r tu allan i'r ffens allanol.

12. Rhaid sicrhau nad oes dim yn bargodi dros y ffens allanol a allai ddarparu ffordd i anifail ddianc neu ddod i mewn

13. Rhaid sicrhau na all anifail ddianc drwy waelod y ffens allanol. Rhaid i rwyll asio neu ddolennau cadwyn gael eu gosod yn sownd neu eu suddo mewn concrit neu, os nad oes concrit ar y llawr, eu gosod drwy barhau'r wifren o dan y ddaear i ddyfnder digonol. Yn dibynnu ar y math o bridd a thopograffi'r ddaear, dylai'r ffens barhau o dan y ddaear am o leiaf 0.4m (18 modfedd) sut bynnag.

### Adeiladau

14. Ni ddylai adeiladau fod yn agosach na 2.4m (8 troedfedd) i'r ffens allanol, oni fydd APHA wedi rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig, ac ni ddylent byth fod yn llai na 1.2m (4 troedfedd) o'r ffens allanol heblaw pan fyddant yn rhan ohoni.

15. Lle mae adeiladau o fewn y safle cwarantîn o fewn 2.4m (8 troedfedd) i'r ffens allanol, rhaid gwneud trefniadau i leihau'r risg y bydd anifail yn dianc o do'r adeilad dros y ffens allanol. Mae dulliau derbyniol yn cynwys darparu giard onglog tuag allan o amgylch yr adeilad neu gynyddu uchder pob rhan o'r ffens allanol sydd o fewn 2.4m (8 troedfedd) i'r adeilad i isafswm uchder fertigol o 3m (10 troedfedd).

16. Gall adeiladau ffurfio rhan o'r ffens allanol ond os gwnânt hynny:
    a) rhaid i'r waliau gael eu hadeiladu'n gadarn o frics neu ddeunydd tebyg
    b) rhaid sicrhau ei bod yn amhosibl i anifail mewn cwarantîn gael mynediad i'w do
    c) lle mae waliau'r adeilad yn llai na 3m (10 troedfedd) o uchder rhaid rhoi ffens gadarn o'i amgylch ar ongl tuag allan neu giard arall a gymeradwywyd gan APHA
    d) lle mae wal uned anifail yn rhan o'r ffens allanol rhaid sicrhau nad oes ffenestr ynddi na drysau;
    e) ar safle lle y caiff cathod eu rhoi mewn cwarantîn, rhaid i naill ai'r ardal gyfan rhwng y ffens allanol ac unrhyw adeiladau o fewn y ffens allanol gael eu gwifro, neu rhaid cael ardal dadlwytho sy'n hollol gaeedig ac sy'n ddigon mawr fel y gall cerbyd asiant cario ddod i mewn a llwytho a dadlwytho cratiau ynddi y tu ôl i glwydi dan glo (gan gynnwys yr ardaloedd ymarfer a'r coridor diogelwch pan fydd yr ardal ymarfer a'r glwyd wedi'u gosod).

### Unedau Cŵn a Chathod

17. Rhaid i'r holl ddeunyddiau a ddefnyddir fod o fath sy'n dderbyniol i APHA.

18. Rhaid i waliau mewnol y llety cysgu fod wedi'u gorchuddo ag arwyneb llyfn, o ddeunydd caled anhydraidd i uchder nad yw'n llai na 1.2m (4 troedfedd). P'un ai concrit neu flociau adeiladu eraill a ddefnyddir, rhaid eu trin mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn bodloni'r gofyniad hwn.

19. Ni ddylid defnyddio pren wrth adeiladu waliau, lloriau, partisiynau, fframiau drysau na drysau llety cysgu cŵn newydd. Gellir ei ddefnyddio i gynnal rhwyll asio mewn ardaloedd ymarfer. Lle y'i defnyddiwyd mewn llety cysgu sydd eisoes yn bodoli, rhaid ei orchuddio â deunydd gwydn, llyfn, anhydraidd, heblaw am baent, i uchder o 1.2m (4 troedfedd) o leiaf.

20. Gellir defnyddio pren wrth adeiladu unedau cathod. Lle mae gan uned cathod llety cysgu rhaid i'w harwynebau mewnol fod yn llyfn ac anhydraidd. Caniateir i arwynebau pren gael eu paentio yn yr achos hwn.

21. Rhaid i ddrysau unedau gael eu hadeiladu fel nad oes bylchau o gwbl rhyngddynt.

22. Rhaid sicrhau na all anifail ddianc drwy unrhyw ffenestr sy'n peri risg o ran diogelwch. Rhaid i ffenestri o'r fath gael eu diogelu gan rwyll asio neu ddeunydd tebyg, oni bai eu bod wedi'u gwneud o wydr wedi'i atgyfnerthu gan wifrau, polycarbonad neu ddeunydd arall sy'n gwrthsefyll unrhyw wrthdrawiadau. Rhaid diogelu ffenestri sy'n agor hefyd gan rwyll asio o faint a mesur addas.

23. Rhaid i unrhyw feinciau cysgu uchel neu welyau addas fod wedi'u gwneud o ddeunydd y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n hawdd. Rhaid i unrhyw welyau neu feinciau na ellir eu glanhau a'u diheintio gael eu dinistrio drwy eu llosgi ar ddiwedd y cwarantîn.

24. Rhaid i bob uned gael ei glanhau a'i rhifo'n barhaol. Rhaid sicrhau bod pob uned yn dangos hysbysiad sy'n rhoi manylion am y deiliaid.

### Gofynion ychwanegol ar gyfer unedau cŵn

25. Rhaid i waliau'r llety cysgu ymestyn o'r llawr i'r to a rhaid iddynt fod o wneuthuriad solet oni fydd hyn yn anymarferol, ac os felly rhaid i'r wal fod yn 1.8m (6 throedfedd) o uchder o leiaf a'r bwlch uchod wedi ei lenwi â rhwyll asio na ellir dianc drwyddi gyda diamedr gwifren o ddim llai na 2.0mm (14SWG), a maint rhwyll nad yw'n fwy na 5.01 cm (2 fodfedd).

26. Dylai'r gwahanfuriau rhwng yr ardaloedd ymarfer cyfagos, y mae'n rhaid iddynt fod yn 1.8m (6 throedfedd) o uchder o leiaf, gael eu hadeiladu yn unol â'r manylebau canlynol:

   a) ar gyfer cŵn bach a chanolig eu maint - o ddeunydd llyfn, anhydraidd am y 0.4m (18 modfedd) cyntaf o uchder o leiaf; yn uwch na hynny, deunydd tryloyw na all neb ddod i gysylltiad â thrwyn na phawen drwyddo
   b) ar gyfer cŵn mawr - o ddeunydd llyfn, caled, anhydraidd am y 0.6m (2 droedfedd) cyntaf o uchder o leiaf; yn uwch na hynny, deunydd tryloyw na all neb ddod i gysylltiad â thrwyn na phawen drwyddo.

27. Gall trefniadau amgen sy'n:
   a) atal unrhyw gyswllt rhwng anifeiliaid mewn llety cysgu ac ardaloedd ymarfer cyfagos
   b) atal wrin rhag llifo o un ardal ymarfer i un arall,
   gael eu cymeradwyo yn ôl disgresiwn APHA.

28. Rhaid i adrannau is partisiynau rhwng ardaloedd ymarfer cyfagos fod o wneuthuriad solet y gellir eu glanhau a'u diheintio. Os yw'r adran uchaf wedi ei gwneud o wifrau rhaid iddi gynnwys ffens ddwbl o rwyll asio gyda bwlch rhwng y ddwy ran a fydd yn atal anifeiliaid mewn ardaloedd ymarfer cyfagos rhag dod i gysylltiad â'i gilydd. Ni ddylai'r bwlch fod yn llai na:

   a) 15cm (6 modfedd) lle y defnyddir rhwyll 5.0cm (2 fodfedd) sgwâr, neu
   b) 10cm (4 modfedd) lle y defnyddir rhwyll 2.5cm (1 fodfedd) sgwâr, neu
   c) bydd bwlch o 10cm (4 modfedd) yn dderbyniol os defnyddir rhwyll hirsgwar 2.5cm (1 fodfedd) o led, os caiff ei chynnal yn briodol, ac os bydd dau groen y rhwyll wedi eu darwahanu fel nad yw'r tyllau mewn yn croen yn syrthio gyferbyn â thyllau'r llall, neu os yw'r crwyn yn sefydlog fel bod y tyllau ar un ochr y rhwyll yn llorweddol a'r rhai ar yr ochr arall yn fertigol.

29. Rhaid i rwyll asio a ddefnyddir i adeiladu unedau cŵn gael diamedr gwifren o ddim llai na 2.0mm (14SWG) ac eithrio unrhyw orchudd.

30. Lle nad yw'r ffens yn ffurfio partisiwn rhwng ardaloedd ymarfer cyfagos, er enghraifft ochr ardal ymarfer neu derfyn ardal ymarfer, rhaid ei gosod yn sownd neu ei suddo mewn concrit er mwyn sicrhau na all unrhyw anifail ddianc ohoni.

31. Rhaid i ffensys o rwyll asio gael eu gosod yn sownd lle maent yn cwrdd â ffensys neu waliau solet. Heblaw am bartisiynau, rhaid i ffensys neu waliau o dan 3m (10 troedfedd) o uchder gael giard o rwyll asio gadarn sy'n 0.6m (2 droedfedd) o led ac wedi'i osod ar ben y wal neu'r ffens ar ongl tuag at i mewn ac at i fyny o 45°. Fel arall, rhaid rhoi to dros yr ardal i gyd a sicrhau ei fod wedi'i osod yn ddiogel.

32. Rhaid i ardaloedd ymarfer newydd gael arwynebau llawr anhydraidd y gellir eu glanhau a'u diheintio.

33. Dylai arwynebau gael eu hadeiladu a'u dylunio fel nad oes dŵr yn cronni ar yr wyneb ac fel na cheir problemau o ran hylendid cyffredinol ac ansawdd yr aer sy'n deillio o hyn. Mewn ardaloedd ymarfer sydd eisoes yn bodoli mae graean pys i ddyfnder gofynnol o 15 cm (6 modfedd) o leiaf yn dderbyniol.

34. Ni ddylid defnyddio ardaloedd glaswelltog ar gyfer ardaloedd ymarfer.

### Gofynion ychwanegol ar gyfer unedau cathod

35. Rhaid rhoi to cadarn ar flociau ac unedau cathod. Os defnyddir deunyddiau ysgafn ar gyfer y to, fel PVC rhychog, rhaid eu hatodi'n sownd i'r to â rhwyll asio.

36. Rhaid i'r partisiynau rhwng unedau cyfagos fod o wneuthuriad solet fel nad yw'n bosibl i un gath boeri at un arall.

37. Rhaid i unrhyw rwyll asio a ddefnyddir gael diamedr o ddim llai nag 1.6mm (16SWG) ac eithrio unrhyw orchudd, a maint rhwyll nad yw'n fwy na 2.5cm (1 fodfedd), neu 5.0cm (2 fodfedd) mewn coridorau gwasanaethu a thrapiau.

## C - GWEITHREDIADAU
### Mynediad i'r Safle

38. Dim ond yr unigolion canlynol a gaiff weld anifeiliaid mewn cwarantîn:
   a) Yr Uwcharolygydd Milfeddygol (VS) neu ei ddirprwy neu ddirprwyon awdurdodedig
   b) perchennog y safle ac aelodau o'i staff
   c) un o Swyddogion Milfeddygol APHA
   d) unrhyw unigolyn a awdurdodwyd gan (a), (b) neu (c) ac a awdurdodwyd i'w helpu gyda'u dyletswyddau,
   e) unrhyw unigolyn sy'n ymweld ag anifail mewn cwarantîn gyda chaniatâd gweithredwr y safle,
   f) unrhyw un a gyflogir gan y gwasanaethau brys, sydd angen cael mynediad i'r safle mewn argyfwng.

## Gweithrediadau Safle

39. Rhaid i'r safle gael ei gynnal a'i gadw a'i weithredu fel rhan o'r safle sydd yn hollol ar wahân i unrhyw ran arall lle y cedwir anifeiliaid na chawsant eu mewnforio (e.e. mewn llety cŵn).

40. Rhaid darparu cyfarpar hollol ar wahân, gan gynnwys ceginau ac ystafelloedd paratoi bwyd ar wahân o fewn ffens neu wal allanol y safle i wasanaethu anifeiliaid mewn cwarantîn yn unig.

41. Rhaid trefnu gweithrediadau fel bod cyn lleied o staff â phosibl yn gorfod cyflawni dyletswyddau yn y ddwy adran. Rhaid sicrhau eu bod yn symud rhwng yr ardal gwarantîn a'r ardaloedd eraill cyn lleied â phosibl.

## Unedau

42. Dim ond i gadw'r rhywogaethau o anifeiliaid y cawsant eu hawdurdodi i'w cadw y caiff yr unedau eu defnyddio. Ni ddylid defnyddio unedau cŵn i gadw anifeiliaid sy'n drymach na'r uchafswm pwysau priodol y cymeradwywyd yr unedau ar eu cyfer.

43. Rhaid i bob uned arddangos yn amlwg fanylion canlynol y deiliad/deiliaid ar hysbysiad:
    a) disgrifiad byr o'r anifail yn cynnwys enw'r perchennog
    b) enw'r anifail
    c) rhif y drwydded fewnforio
    d) gwlad lle roedd yn byw yn flaenorol a'r dyddiad glanio.

44. Caniateir i anifeiliaid rannu un uned:
    a) os yw'r anifeiliaid yn perthyn i'r un perchennog
    b) os yw'r anifeiliaid yn mynd i safle cwarantîn yr un pryd,
    c) os yw APHA wedi rhoi trwydded rannu yn dilyn argymhelliad gan y VS.

45. Ni all mwy na thri anifail rannu un uned, ac ni chaniateir i gŵn a chathod rannu'r un llety.

46. Rhaid sicrhau, bob amser, fod digon o unedau sbâr ar gael fel y gellir gwahanu'r anifeiliaid os bydd angen.

## Anifeiliaid yn Cyrraedd, yn cael eu Rhyddhau a'u Symud

47. Rhaid i'r gweithredwr roi'r newyddion diweddaraf yn gyson i'r VS am anifeiliaid y mae disgwyl iddynt gyrraedd.

48. Pan fydd anifail yn cyrraedd y safle, rhaid i'r gweithredwr gwblhau adrannau 1 i 3 ar y ffurflen Anifail Anwes yn Cyrraedd Safle Cwarantîn ac yn cael ei Ryddhau (ID98) a chadarnhau:
    a) y dyddiad y cyrhaeddodd yr anifail
    b) y wlad y mae'r anifail wedi teithio ohoni,
    c) bod yr anifail wedi cyrraedd mewn cynhwysydd diogel.

49. Ni ddylid rhyddhau anifail o gwarantîn cyn y dyddiad a gadarnhawyd gan APHA ar y ffurflen Cadarnhau Dyddiad Rhyddhau o Gwarantîn (Ffurflen ID55). Caiff yr Adran ymestyn y cyfnod cwarantîn unrhyw bryd:
    a) os amheuir bod achos o'r gynddaredd neu os caiff achos o'r gynddaredd ei gadarnhau ar y safle cwarantîn, neu
    b) mae anifail y bu'n rhannu ag ef yn mynd yn sâl neu'n marw tuag at ddiwedd y cyfnod dan gadw.

50. Heblaw mewn argyfwng, ni ddylid symud anifail o'i uned heb ganiatâd y VS ymlaen llaw. Rhaid cadw cofnodion o bob symudiad o'r fath a'u cadw ar y safle am 12 mis o ddyddiad rhyddhau'r anifail.

51. Lle y bo'n bosibl, dylid trin yr anifail mewn unedau unigol oherwydd y perygl o groes-heintio ac er mwyn osgoi ei symud yn ddiangen. Fodd bynnag, rhaid i driniaeth fawr gael ei chynnal yn yr ystafell driniaeth filfeddygol.

52. Pan symudir anifail yn ôl ac ymlaen i'r ystafell driniaeth, rhaid cymryd pob cam rhagofalus er mwyn sicrhau diogelwch ac er mwyn atal yr haint rhag cael ei drosglwyddo i anifeiliaid eraill.

53. Dim ond er mwyn rhoi triniaeth filfeddygol y dylid defnyddio'r ystafell driniaeth. Ni ddylid ei defnyddio at unrhyw ddiben arall gan gynnwys tacluso, pwyso, ymolchi ac ati oni fydd awdurdodiad ymlaen llaw wedi ei roi gan APHA a'r VS.

54. Rhaid i unrhyw achos o symud anifail o'r safle gael ei awdurdodi ymlaen llaw gan APHA.

## Salwch

55. Rhaid i'r gweithredwr hysbysu'r VS ar unwaith os bydd anifail yn dangos arwyddion o salwch, newid mewn natur, neu os bydd yn ymddangos fel pe bai'n gofidio neu'n dihoeni. Cyfrifoldeb y gweithredwr yw hysbysu perchnogion yn ddigonol os bydd eu hanifeiliaid yn dangos arwyddion o salwch.

## Diogelwch - Ffens Allanol

56. Ni ddylid gadael i eira na deunydd neu wrthrychau eraill gronni na chael eu gosod yn erbyn y wal neu'r ffens allanol gan leihau eu huchder go iawn, na gadael iddynt gronni ar y giard gwifrog fel ei fod yn gwanhau neu'n dymchwel.

57. Rhaid cadw lle yn agos i'r ffens allanol, y tu mewn a'r tu allan, yn rhydd rhag llysdyfiant fel y gellir mynd at ddwy ochr y ffens yn hawdd at ddibenion archwilio. Ni ddylid caniatáu i ganghennau coed fargodi dros y ffens allanol.

58. Rhaid i bob mynedfa yn y ffens allanol gael ei chadw dan glo heblaw pan fydd angen mynediad gan unigolion awdurdodedig.

## Diogelwch - Dadlwytho

59. Rhaid i gŵn gael eu dadlwytho o fewn y ffens allanol gyda'r mynedfeydd dan glo, a lle y bo'n bosibl ni ddylid eu symud o'r bocs cludo nes eu bod yn yr uned a neilltuwyd iddynt.

60. Rhaid i gathod gael eu dadlwytho mewn ardal hollol gaeedig (naill ai ar safle wedi ei orchuddio'n llwyr â gwifrau neu mewn man dadlwytho arbennig) a thu ôl i glwydi dan glo. Os nad yw'r llwybr o'r ardal dadlwytho gaeedig yn hollol gaeedig, rhaid eu rhoi mewn crât dwbl i'w symud i'r uned a neilltuwyd iddynt.

61. Ni ddylai'r gweithredwr dderbyn anifail o gerbyd asiant cario oni bai y gellir dadlwytho'r anifail yn ddiogel.

## Diogelwch - Cyffredinol

62. Rhaid i'r gweithredwr neu aelod o staff a awdurdodwyd i ymgymryd â'r cyfrifoldeb yn absenoldeb y gweithredwr, hysbysu'r VS ar unwaith os bydd anifail yn dianc neu'n cael ei symud heb awdurdodiad.

63. Rhaid i bob drws, clo, clicied a dulliau eraill sy'n cau ohonynt eu hunain gael eu cadw mewn cyflwr da a rhaid iddynt fod ar gau drwy'r amser.

64. Os gadewir y safle heb oruchwyliaeth am unrhyw reswm eithriadol rhaid sicrhau eu bod dan glo.

65. Rhaid cadw llygad barcud ar unrhyw anifail sy'n dangos tueddiad i gnoi gwifrau. Rhaid rhoi sylw arbennig i'r gwaith o gynnal a chadw ffensys mewn ardaloedd ymarfer unigol a'r ffensys allanol, a rhaid trwsio unrhyw ffensys sydd wedi torri ar unwaith.

66. Rhaid sicrhau y gellir diogelu anifeiliaid a phersonél os bydd achos o dân neu argyfwng tebyg. Rhaid cytuno ar gynllun wrth gefn pan fydd tân rhwng y Swyddog Atal Tân, y VS a'r gweithredwr.

67. Yn dilyn digwyddiad yn ymwneud â chnoi neu grafu, rhaid i'r gweithredwr:
    a) sicrhau bod staff yn gwybod bod yn rhaid iddynt gysylltu â'u meddyg eu hunain
    b) hysbysu'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy lleol (Swyddog Meddygol Cymunedol yn yr Alban),
    c) ystyried gydag APHA a yw'r amgylchiadau yn teilyngu gweithredu er mwyn gohirio'r broses o ryddhau'r anifail os oes disgwyl iddo gael ei ryddhau o fewn 15 diwrnod.

## Ymwelwyr

68. Rhaid i reolau ar gyfer ymwelwyr gael eu harddangos yn y dderbynfa ac ym mhob un o fynedfeydd y ffens allanol. Rhaid rhoi copi o'r rheolau i berchennog yr anifail ar adeg derbyn yr archeb. Rhaid i'r rheolau gynnwys y pwyntiau a drafodwyd ym mharagraffau 69-75 a 77 o leiaf.

69. Dim ond yn ôl disgresiwn y gweithredwr a'r VS y caniateir ymwelwyr.

70. Rhaid i ymwelwyr fynd i'r dderbynfa ar ôl cyrraedd ac ni ddylai fod yn bosibl iddynt fynd i'r ardal gwarantîn heb ganiatâd y gweithredwr nac aelod enwebedig o'i staff; ac mae'n rhaid i'r unigolyn hwn aros yng nghwmni'r ymwelydd.

71. Rhaid darparu llyfr lle y cofnodir enwau, cyfeiriadau a dyddiadau ymweliadau ymwelwyr. Dylai fod lle ar gael i ymwelwyr gofnodi unrhyw sylwadau a allai fod ganddynt. Rhaid i'r llyfr fod ar gael i'w archwilio ar bob adeg resymol gan un o swyddogion APHA neu arolygydd awdurdod lleol.

72. Rhaid i'r gweithredwr neu aelod o'i staff aros yng nghwmni pob ymwelydd drwy gydol yr ymweliad, heblaw pan fydd yr ymwelydd wedi cytuno i gael ei gloi i mewn gyda'r anifail y mae'n ymweld ag ef. Rhaid sicrhau bod staff yn bresennol drwy'r amser yn y bloc lle caiff ymwelydd ei gloi mewn uned. Os caiff ymwelydd ei gloi i mewn, rhaid sicrhau bod ganddo ffordd o alw am sylw mewn argyfwng fel chwiban neu gloch. Rhaid i aelod o staff hebrwng pob ymwelydd oddi ar y safle ar ôl yr ymweliad.

73. Ni chaiff perchennog nac unrhyw unigolyn sy'n ymweld ar ran y perchennog ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid ar y safle heblaw'r rhai y mae'n gyfrifol amdanynt.

74. Ni chaiff ymwelwyr weld eu hanifeiliaid anwes heblaw o fewn yr uned neilltuedig y mae'r anifail hwnnw ynddi.

75. Rhaid bod yn wyliadwrus er mwyn sicrhau na chaiff unrhyw anifeiliaid eu smyglo i mewn nac allan o'r safle. Yn arbennig, ni ddylid caniatáu i ymwelwyr fynd â bagiau neu baciau i mewn i'r safle heb ganiatâd datganedig y gweithredwr neu aelod o'i staff.

### Hylendid

76. Rhaid i'r dillad uchaf a'r esgidiau a gaiff eu gwisgo gan staff llety cwarantîn a'r VS gael eu cadw'n lân a rhaid iddynt gael eu newid neu eu diheintio cyn iddynt adael y safle cwarantîn.

77. Rhaid i bob ymwelydd a staff olchi eu dwylo wrth adael y safle cwarantîn. Os nad oes cyfleuster ar gael i newid esgidiau wrth y ffens allanol, yna rhaid i bawb sicrhau bod eu hesgidiau yn cael eu diheintio cyn iddynt adael y safle cwarantîn. Gellir defnyddio bath traed/mat diheintio a bydd y diheintydd a ddefnyddir yn un a nodwyd gan y VS. Rhaid cynghori perchnogion anifeiliaid anwes i wisgo dillad uchaf untro neu olchi eu dillad uchaf cyn iddynt ddod i gysylltiad ag unrhyw anifeiliaid eraill.

78. Rhaid i archwiliadau post-mortem gael eu cynnal gan y VS a dim ond staff hanfodol all fod yn bresennol. Rhaid iddynt wisgo dillad diogelu, h.y. esgidiau trymion, dillad uchaf gwrth-ddŵr, menig, masg, sbectol a gorchudd pen. Rhaid i'r dillad hyn gael eu glanhau a'u diheintio oni fyddant yn rhai untro. Os felly, rhaid eu dinistrio drwy eu llosgi yn syth ar ôl eu defnyddio.

79. Rhaid i'r safle cwarantîn cyfan gael ei gadw'n lân, yn daclus ac yn hylan a rhaid cymryd camau i reoli fermin.

### Diheintio Cyffredinol

80. Rhaid i'r ardaloedd i'w diheintio gael eu glanhau'n drylwyr cyn eu diheintio, a rhaid i'r diheintydd a ddefnyddir fod yn un a nodwyd gan y VS.

81. Ni ddylid storio cratiau y cludwyd yr anifeiliaid ynddynt y tu allan i'r ardal gwarantîn na'u trosglwyddo i unrhyw unigolyn nes eu bod wedi cael eu glanhau'n drylwyr a'u diheintio gyda diheintydd a nodwyd gan y VS. Rhaid tynnu label y gynddaredd cyn i'r crât gael ei roi o'r neilltu neu ei ailddefnyddio.

### Gwelyau, Dillad Gwely ac Eitemau eraill

82. Rhaid i ddillad gwely (h.y. blancedi a chlustogau) gael eu cadw'n lân, yn sych ac yn hylan. Ni ddylid trosglwyddo'r dillad gwely rhwng anifeiliaid neu eu hail-ddefnyddio heb eu glanhau a'u diheintio yn gyntaf. Os nad yw hyn yn bosibl rhaid eu dinistrio drwy eu llosgi ar unwaith ar ôl eu defnyddio.

83. Rhaid glanhau a diheintio dillad a meinciau cysgu yn syth ar ôl gwagio'r uned, ac os ydynt wedi'u difrodi'n wael rhaid rhoi rhai newydd yn eu lle.

84. Ni ddylid caniatáu i gi na chath ddod i gysylltiad ag unrhyw eitemau, gan gynnwys teganau, a ddefnyddiwyd ar gyfer anifeiliaid eraill neu ganddynt oni fydd eitemau o'r fath wedi cael eu glanhau a'u diheintio yn gyntaf. Rhaid glanhau a diheintio pob eitem, gan gynnwys dillad gwely, yn drylwyr cyn mynd â hwy allan o'r safle yn ystod y cyfnod cwarantîn. Os na elir eu defnyddio yn rhywle arall neu os na ellir eu glanhau a'u diheintio, rhaid llosgi eitemau.

85. Gall eitemau a theganau a ddefnyddir gan anifail ar adeg ei ryddhau gael eu symud oddi yno heb eu trin gan berchennog yr anifail ar yr un pryd.

### Ystafelloedd Paratoi Bwyd/Ceginau a Llestri

86. Rhaid diheintio ystafelloedd paratoi bwyd a cheginau bob dydd a'u cadw'n lân ac yn hylan drwy'r amser.

87. Rhaid cadw powlenni bwyd a dŵr ac unrhyw lestri eraill a ddefnyddir gan anifail mewn cwarantîn mewn cyflwr da a rhaid eu bod wedi'u gwneud o ddeunydd a all gael ei lanhau a'i ddiheintio. Ni ddylid eu rhannu rhwng anifeiliaid heb iddynt gael eu glanhau a'u diheintio gyntaf.

88. Er mwyn atal cnofilod, ni ddylid gadael bwyd sy'n weddill mewn uned anifail ar ôl amser bwydo.

89. Rhaid cadw powlenni dŵr awtomatig sefydlog yn hylan.

### Brwshis, Rhawiau ac ati

90. Rhaid cadw brwshis, rhawiau a theclynnau eraill yn hylan a dim ond eu defnyddio ar y safle cwarantîn.

### Gwaredu Gwastraff

91. Rhaid sicrhau bod llosgydd ar gael at ddefnydd y safle, neu ryw ffordd arall sy'n foddhaol i APHA, er mwyn gwaredu carcasau, ysgarthion, toriadau, bwyd sy'n weddill a gwastraff arall o'r safle. Lle y bo'n bosibl dylai'r llosgydd fod o fewn y ffens allanol, ac yn gaeedig. Os yw'r llosgydd y tu allan i'r ffens allanol rhaid iddo gael ei ffens ei hun y gellir ei chloi sy'n cyrraedd safon ffens allanol a rhaid sicrhau na all anifeiliaid fynd at y llosgydd.

92. Rhaid i'r holl wastraff gael ei gario i'r llosgydd mewn cynwysyddion diddos wedi'u selio.

93. Rhaid i unrhyw gig neu gynnyrch cig a geir yng nghrât anifail wedi'i fewnforio pan fydd yn cyrraedd y safle cwarantîn gael ei ddinistrio drwy ei losgi, er mwyn osgoi'r risg o gyflwyno clefydau anifeiliaid egsotig.

### Staff

94. Dylai pob aelod o staff ar y safle gael ei hyfforddi i safon sy'n bodloni'r VS a dylai hyn gynnwys hyfforddiant ar beryglon y gynddaredd, y camau rhagofalus i'w cymryd er mwyn atal achosion o groes-heintio, dianc a mynediad heb awdurdod a'r rhwymedigaeth i hysbysu'r gweithredwr am unrhyw anifail sy'n dianc ar unwaith.

95. Rhaid rhoi gwybod i staff am gynnig yr Adran Iechyd i ddarparu brechiad cyn amlygiad i'r gynddaredd sydd ar gael am ddim.

96. Rhaid i bob aelod o staff a gyflogir ar y safle fod yn gyfarwydd â'r amodau a nodir yn y Rhestr hon.

### Cofnodion

97. Rhaid cadw hanes achos pob anifail a gedwir ar safle cwarantîn ac mae hyn yn cynnwys y canlynol:

    a) disgrifiad manwl o'r anifail
    b) cofnod o'r wlad lle roedd yn byw yn flaenorol
    c) dyddiad glanio
    d) dydddiad dechrau mewn cwarantîn
    e) symud anifail i mewn ac allan o unedau
    f) symud anifail o'r safle
    g) digwyddiadau lle y caiff staff neu ymwelwyr eu cnoi neu eu crafu
    h) unrhyw driniaeth filfeddygol a roddir yn ystod y cyfnod mewn cwarantîn (gan gynnwys rhif swp y brechlynnau), salwch a digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â'r anifail.

98. Rhaid i gofnodion o'r fath gael eu cadw ar y safle am 12 mis o ddyddiad rhyddhau'r anifail a rhaid eu cyflwyno ar bob adeg resymol ar orchymyn i arolygydd APHA neu i'r awdurdod lleol neu gwnstabl.

## NODYN PWYSIG

## Nodwch gyfanswm nifer yr unedau cymeradwy. Ni ddylai hyn gael ei newid mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd yr Adran ymlaen llaw.

**Animal and Plant Health Agency**
**Centre for International Trade - Carlisle**
**Eden Bridge House**
**Lowther Street**
**Carlisle**
**CA3 8DX**
**Ffôn: 03000 200 301**
**Ffacs: 0208 0260 498**

## Rhestr 2

**[Nodwch Gynllun y Cyfleuster Cwarantîn]**

Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig sy'n gweithio i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.